

## Geirfa'r Gyfraith

# Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r termau technegol a deddfwriaethol Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r **Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)** ('y Bil'), a hynny er gwybodaeth i Aelodau. Cyflwynwyd y Bil ar **30 Mehefin 2014** gan **Lesley Griffiths AC**, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Bil at y **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**.

## Termau penodol i'r Bil

- abuse – **cam-drin/camdriniaeth**
- adoption order – **gorchymyn mabwysiadu**
- alternative policy – **polisi amgen**
- annual plan – **cynllun blynyddol**
- annual progress report – **adroddiad cynnydd blynyddol**
- appropriate action – **camau priodol**
- Ask and Act process – **proses Gofyn a Gweithredu**
- civil partnership agreement – **cytundeb partneriaeth sifil**
- community safety partnership – **partneriaeth diogelwch cymunedol**
- domestic abuse – **cam-drin domestig**
- emotional abuse – **cam-drin emosiynol**
- family abuse – **cam-drin teuluol**

- female genital mutilation – **anffurfio organau cenedlu benywod**
- Female Genital Mutilation Act 2003 – **Deddf Anffurfio Organau Cenedlu Benywod 2003**
- financial abuse – **cam-drin ariannol**
- force – **grym**
- forced marriage – **priodas dan orfod**
- gender-based violence – **trais ar sail rhywedd**
- harassment – **aflonyddu**
- healthy relationship education – **addysg perthnasoedd iach**
- implementation and delivery plan – **cynllun gweithredu a chyflawni**
- intimate violence – **trais personol**
- local health board – **bwrdd iechyd lleol**
- local strategy – **strategaeth leol**
- Ministerial Adviser – **Cynghorydd Gweinidogol**
- multi-agency public protection arrangements (MAPPA) – **trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd**
- multi-agency risk assessment conference (MARAC) – **cynhadledd asesu risg amlasiantaeth**
- national indicator(s) – **dangosydd(ion) cenedlaethol**
- national strategy – **strategaeth genedlaethol**
- National Training Framework – **Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol**
- NHS trust – **ymddiriedolaeth y GIG**
- non-physical abuse – **cam-drin nad yw'n gorfforol**
- parental responsibility – **cyfrifoldeb rhiant**
- personal and social education (PSE) – **addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)**
- physical abuse – **cam-drin corfforol**

- policy statement – **datganiad polisi**
- protection of victims – **amddiffyn dioddefwyr**
- psychological abuse – **cam-drin seicolegol**
- relative(s) – **perthynas (perthnasau)**
- relevant authority – **awdurdod perthnasol**
- relevant professionals – **gweithwyr proffesiynol perthnasol**
- Right to be Safe – **Yr Hawl i fod yn Ddiogel**
- Scottish permanence order – **gorchymyn parhauster yr Alban**
- sexual abuse – **cam-drin rhywiol**
- sexual assault – **ymosodiad rhywiol**
- sexual exploitation – **camfanteisio rhywiol**
- sexual violence – **trais rhywiol**
- Single Integrated Plan (SIP) – **Cynllun Integredig Sengl**
- stalking – **stelcio**
- statutory guidance – **canllawiau statudol**
- strategic assessment – **asesiad strategol**
- substance misuse – **camddefnyddio sylweddau**
- threat of violence – **bygythiad o drais**
- violence against women – **trais yn erbyn menywod**
- voluntary organisation – **sefydliad gwirfoddol**
- willingness-to-pay (WTP) – **bodlonrwydd i dalu**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Hannah Johnson** ([hannah.johnson@cymru.gov.uk](mailto:hannah.johnson@cymru.gov.uk)) yn y Gwasanaeth Ymchwil.